# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | David Phillips | Adran Etholiadol: | Y Castell |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Euthum i nifer sylweddol o gyfarfodydd cynrychioliadol, ffurfiol ac anffurfiol, ag etholwyr, swyddogion y cyngor a'r grwpiau preswylwyr niferus yn y ward, yn ogystal â busnesau lleol. Rwyf wedi cyfarfod â'r heddlu a PCSOs (Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) i drafod materion trwyddedu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynd i gyfarfodydd PACT amrywiol. Gyda'm cydweithwyr, rwy'n mynd i gymorthfeydd cynghorwyr bore Sadwrn ar draws y ward yn y Marina, Sandfields, Brynmelin a Dyfaty. Ar ben hynny, euthum i gyfarfodydd preswylwyr a PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) amrywiol ar draws y ward, ynghyd â chyfarfodydd cymunedol eraill, gan gynnwys rhai'r Swyddfa Dai Ranbarthol ac Ardal Adnewyddu Sandfields. Hefyd, euthum i gyfarfodydd grwpiau clwstwr Cymunedau'n Gyntaf.

Ymatebais i nifer sylweddol o faterion a chwynion etholwyr, ac ymdrin â nhw, dros y ffôn, trwy e-bost, ar y safle neu drwy ymweld â chartrefi. Mae'r rhain yn parhau i ymwneud yn bennaf â Strydlun, (sbwriel, baw cŵn, casgliadau gwastraff, llwybrau cerdded a pharcio), ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol a chyffuriau, materion tai (dyrannu a chyflwr). Rwyf hefyd wedi cael rôl gynrychioliadol fwy uniongyrchol mewn rhai materion Gwasanaethau Cymdeithasol/Addysg a chytundebau tenantiaeth. Rwy'n cynnal diddordeb agos mewn materion cynllunio yn y ward a chynrychiolais bryderon preswylwyr mewn pwyllgorau.

Rwy'n ymweld â digwyddiadau a sefydliadau'n rheolaidd ac yn ceisio cadw cysylltiadau da â'r cymunedau ethnig amrywiol sy'n byw yn y ward. Rwy'n gweithredu fel archwiliwr i grwpiau amrywiol, yn parhau i ymddiddori ym mhrosiect Llysiau'r Vetch a datblygiad Parc Bryn-y-Don.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 4 | / | 9 | 44 | % |
| Y Cyngor | 10 | / | 18 | 56 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - Partneriaeth Preswylwyr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **15** | **/** | **31** | 48 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **1** | **/** | **1** | 100 | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Ymddiriedolwr Treftadaeth y Byd y DU.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Parheais i ymddiddori'n frwd mewn cynigion i ailadeiladu'r Clwb Bechgyn a Merched sydd bellach yn adfeiliedig er lles pobl ifanc leol, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd ymgynghori ac rwy'n edrych ymlaen at rôl fwy gweithredol byth ar ôl i'r arian gael ei sicrhau. Hefyd, gyda'r Cyng. Crouch, rwyf wedi mynd ati i gefnogi clwb bowls lleol yn ei ymdrechion i gymryd dros ei lawnt fowlio a'i barc a chynorthwyais yn ei gais diweddar am gymorth ariannol a chymorth yn gyffredinol.

Parheais i gefnogi grŵp Cyfeillion Parc Bryn-y-Don ac mae'n bleser gennyf ei fod yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth ddatblygu a gwella'r parc er lles pobl leol, sydd bellach yn cynnwys llawer o weithgareddau i breswylwyr lleol, yn enwedig plant.

Gyda'm cydweithwyr, parheais i ddadlau am fwy o fannau gwyrdd yng nghanol y ddinas a chefnogi ymgyrch y preswylwyr i gadw Cae'r Vetch fel parc go iawn.

Er bod buddsoddiad yng nghanol y ddinas yn cael ei groesawu, rwy'n parhau i boeni bod yn rhaid i'r fath ddatblygiad ystyried ei effaith ar y preswylwyr presennol a rhai'r dyfodol – na all fod yn ddatblygiad ar unrhyw bris.

Er gwaethaf ei chyfoeth cynhenid, mae gan Ward y Castell dlodi ac amddifadedd eithafol hefyd - ychydig o funudau'n unig o waith cerdded rhyngddynt - a pharheais i fod yn ymroddedig i sicrhau bod yr awdurdod yn ymateb i'r heriau mae hyn yn eu cyflwyno.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cymrawd Cymdeithas Celfyddydau a Busnes Frenhinol ac Ymddiriedolwr Treftadaeth y Byd y DU.

Mae gan y Castell rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac rwyf wedi mynd ati i ymddiddori yn natblygiad y banc bwyd ym Monymaen lle rwy'n wirfoddolwr a'r trysorydd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016**

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 17.06.2016 |